# Datganiad sy'n dod â'r Parth Gwyliadwriaeth ger Ceintun, Gogledd Swydd Henffordd, Swydd Henffordd, gan gynnwys rhan o Bowys (AIV/2025/26), wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SO2753754639 i ben

Yn dilyn cadarnhad gan y Prif Swyddog Milfeddygol am bresenoldeb ffliw adar pathogenig iawn ar safle yn Lloegr yn unol ag erthygl 28(3) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("Y Gorchymyn").

1) Yn unol ag erthyglau 28(3), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SO2753754639 a ddaeth i rym gyntaf am 16:00 ar 03 Ebrill 2025.

.

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhau'r mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn ar bob safle wedi'i heintio yn y parth hwnnw.

Yn unol ag erthyglau 4 a 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben.

Mae'r holl dermau yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym o 17:00 ar 11/04/2025.

Llofnodwyd: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 17:00 ar 11/04/2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

[1]O.S. 2006/2927 (Cy. 262) (fel y'i diwygiwyd).

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.